# Ymgynghoriad: Datblygiadau Tyrbinau Gwynt – Y Gofynion o ran Asesu'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol

Rydym am gael eich barn ar y canllawiau cynllunio drafft sydd wedi'u paratoi gan Gillespies LLP ar gyfer Swyddogion Tirwedd a Chynllunwyr Blaenau'r Cymoedd.

Dylech gyflwyno'ch sylwadau erbyn **19eg Rhagfyr 2014**
Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad hwn
anfonwch e-bost at: planningpolicy@blaenau-gwent.gov.uk
neu ffoniwch: 01495 354740 neu 01633 644852

---

## Manylion Cyswllt

| **Manylion Personol** | | **Manylion Asiant (os oes un)** |
|---|---|---|
| Teitl | | |
| Enw Cyntaf | | |
| Enw Olaf | | |
| Teitl Swydd* | | |
| Sefydliad* | **Cyfoeth Naturiol Cymru** | |
| Cyfeiriad Llinell 1 | **Adeilad Llywodraeth Cymru** | |
| Llinell 2 | **Rhodfa Padarn** | |
| Llinell 3 | **Aberystwyth** | |
| Llinell 4 | | |
| Cod post | **SY23 3UR** | |
| Rhif Ffôn | | |
| Cyfeiriad e-bost* | | |

**Lle mae'n berthnasol*

## Cyfrinachedd

Bydd ymatebion i ymgynghoriadau yn cael eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad.

**Os nad ydych am i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu dangos ar unrhyw ddogfennau a gynhyrchir gennym nodwch hynny yma** ☐

## Sylwch

**Atebwch y cwestiynau sydd yn eich barn chi'n berthnasol i'ch maes arbenigedd/buddiant chi.**

**Nid oes rhaid ichi ateb pob cwestiwn.**

| C1 | Ydych chi'n cytuno bod angen canllawiau i sicrhau ein bod yn ymdrin mewn ffordd gyson ag effaith tyrbinau gwynt ar y dirwedd a'r effaith weledol? Os ydych yn cytuno nodwch isod pa statws ddylai fod i'r canllawiau, ai Canllawiau Cynllunio Atodol, Nodyn Cyngor Cynllunio neu dim ond er gwybodaeth? | Nodwch â x |
|---|---|---|
| | Cytuno | x |
| | Ddim yn Cytuno nac Anghytuno | |
| | Anghytuno | |

**C1 Sylwadau Pellach**

- Dewisol i bob awdurdod cynllunio, gallant eu defnyddio fel arweiniad neu eu mabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol.

| C2 | Cyflwyniad<br>Ydych chi'n cytuno â'r teipolegau sy'n cael eu cynnig yn y canllawiau (tudalennau 0.3 a 0.5)? | Nodwch â x |
|---|---|---|
| | Cytuno | |
| | Ddim yn Cytuno nac Anghytuno x | Cytuno, ond gan gynnwys gwybodaeth ychwanegol |
| | Anghytuno | |

**C2 Sylwadau Pellach**

- Byddai'n well gennym pe bai'r teipolegau'n cyfeirio at yr allbwn pŵer yn ogystal ag uchder. Mae enghraifft o'r deipoleg amlweddog hon yn amlwg yn y CDLl a fabwysiadwyd yn ddiweddar gan Gonwy – copïwyd elfennau isod*. Mae llawer o debygrwydd â theipoleg y canllawiau hyn a byddai cynnwys rhai o'r manylion ychwanegol a geir yno yn darparu mwy o wybodaeth, ac rydym yn ffafrio hynny.
- Cysoni'r derminoleg a ddefnyddir yn Nhabl 1 fel ei bod yn gyson â'r trothwyon a ddefnyddir ar gyfer SSAs ac NSIPs, er mwyn eglurder.
- Datgan yr amrediad ym mhob teipoleg yn hytrach na 'neu lai'. Er enghraifft, bach i ganolig gydag amrediad 50-79m.
- Nodi maint tyrbinau a'r amrediad meintiau clwstwr ar wahân er mwyn rhoi sawl cyd-destun i faint datblygiadau yn y nodyn ar waelod y tabl. Mae cryn wahaniaeth rhwng 6 neu fwy o dyrbinau bach a 6 neu fwy o dyrbinau mawr iawn. Er enghraifft, a allai datblygiad canolig fod un ai'n 51-80 m NEU'N ddatblygiad 4 tyrbin?

- Efallai y bydd angen adlewyrchu unrhyw newidiadau i'r teipolegau drwy ddiweddaru pellteroedd yr ardaloedd astudio, a diweddaru'r ddogfen yn unol â hynny.

- Byddai'n bwysig cysylltu unrhyw newidiadau i'r deipoleg a'r ardaloedd astudio ag unrhyw ganllawiau o eiddo Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â Thyrbinau a Strwythurau Fertigol er mwyn cysondeb. Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru'n falch o unrhyw drafodaeth ynglŷn ag unrhyw newidiadau arfaethedig/gwybodaeth ychwanegol i'w chynnwys yn y deipoleg.

*Byddai'n well gennym gael teipolegau sy'n cyfeirio hefyd at yr allbwn pŵer yn ogystal ag uchder; dyma enghraifft o Gonwy.

Micro O dan 50kW
• Ceisiadau sengl neu ddwbl.
• Tyrbin yn llai na 20m at flaen y llafn.
Bychan O dan 5 MW
• Tyrbinau hyd at 3 mewn nifer.
• Tyrbinau yn llai na 50m at flaen y llafn.
• Gwelir fel grŵp bach
Canolig Dros 5MW ond yn is na 25 MW
• Tyrbinau hyd at 9 mewn nifer.
• Tyrbinau yn llai na 80m at flaen y llafn.
• Gwelir fel grŵp mawr.
Mawr Dros 25 MW
• Tyrbinau dros 10 mewn nifer.
• Tyrbinau dros 80m at flaen y llafn.
• Gwelir fel ffarm wynt ar raddfa fawr.
• Lleolir yn yr SSA.
Mawr iawn Dros 25 MW
• Tyrbinau dros 10 mewn nifer.
• Tyrbinau dros 110m at flaen y llafn.
• Gwelir fel ffarm wynt ar raddfa fawr iawn.
• Lleolir yn yr SSA.
Strategol Dros 50 MW
• Fel arfer dros 15 mewn nifer.
• Tyrbinau fel arfer dros 100m hyd at flaen y llafn.
• Gwelir fel datblygiad strategol yn genedlaethol.
• Lleolir yn yr SSA.
• Penderfynir ar geisiadau drwy Gynllunio Isadeiledd Cenedlaethol a ddarperir drwy PINS.

| C3 | Rhan 1<br>A ydych yn cytuno â maint yr ardaloedd astudio a gynigir ar gyfer pob teipoleg (tudalen 1.1: Tabl 2)? | Nodwch â x |
|---|---|---|
| | Cytuno | x |
| | Ddim yn Cytuno nac Anghytuno | |
| | Anghytuno | |
| C3 | Sylwadau Pellach | |

- Mae CNC wedi darparu sylwadau o'r blaen ynglŷn â maint yr ardaloedd astudio a gynigir. Cynyddwyd rhywfaint ar bellteroedd yr ardaloedd astudio yn dilyn y trafodaethau hyn felly rydym yn hapus â'r berthynas gyfredol rhwng uchder ac ardal astudio. Os gwneir unrhyw newidiadau i'r dosbarthiadau uchder yn y deipoleg byddai angen newid pellteroedd yr ardaloedd astudio fel sy'n briodol ar sail y

| |
|---|
| paramedrau y cytunwyd arnynt i ailddiffinio'r ardaloedd astudio a chwilio. |

| C4 | Rhan 1<br>A ydych yn cytuno â'r gofynion o ran cyflwyno barn sgrinio EIA (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) yng nghyswllt pob teipoleg (tudalennau 1.2-1.5)? | Nodwch â x |
|---|---|---|
| | Cytuno | |
| | Ddim yn Cytuno nac Anghytuno | |
| | Anghytuno | |
| C4 | Sylwadau Pellach | |
| | | |

| C5 | Rhan 2<br>A ydych yn cytuno â'r fethodoleg ar gyfer Sgrinio EIA (tudalen 2.1)? | Nodwch â x |
|---|---|---|
| | Cytuno | |
| | Ddim yn Cytuno nac Anghytuno | |
| | Anghytuno x | |
| C5 | Sylwadau Pellach | |

- Dylai'r asesiad pa un a oes angen Datganiad Amgylcheddol am brosiect gael ei seilio ar ba un a yw'r prosiect yn brosiect atodlen 2 ac a yw wedyn yn cyrraedd y trothwyon fel y maent wedi'u nodi yng Nghylchlythyr 11/99. Mae'r meini prawf yn ffigur 2 er asesu a oes angen Datganiad Amgylcheddol yn gamarweiniol ac yn golygu nad y sawl sy'n penderfynu sy'n barnu a oes effeithiau arwyddocaol yn debygol.
- Dylai'r fethodoleg yn ffigur 2 roi sylw i'r sylwadau yng nghwestiwn 2 ynglŷn â'r diffiniadau o ddosbarth tyrbinau. Dyma a ddywed Meini Prawf/Trothwyon Dangosol Cylchlythyr Amgylcheddol 11/99: 'the likelihood of significant effects will generally depend upon the scale of the development, and its visual impact, as well as potential noise impacts. EIA is more likely to be required for commercial developments of 5 or more turbines, or more than 5 MW of new generating capacity'.
- Mae angen ailystyried Ffigur 2 i adlewyrchu hyn. Er enghraifft, os yw cynllun yn cynnwys 5 neu fwy o dyrbinau, nid yw'n golygu'n awtomatig y bydd angen Datganiad Amgylcheddol. Y cyfan y mae'n ei olygu yw ei bod yn fwy tebygol y bydd angen Datganiad Amgylcheddol a dyma lle mae asesu arwyddocâd effeithiau yn bwysig.

| C6 | Rhan 2<br>A ydych yn cytuno â'r ffordd o ymdrin ag effeithiau cronnus a phellteroedd arfaethedig yr ardaloedd chwilio (tudalen 2.3 a Thabl 3)? | Nodwch â x |
|---|---|---|
| | Cytuno x | |
| | Ddim yn Cytuno nac Anghytuno | |

| | |
|---|---|
| Anghytuno | |

| C6 | Sylwadau Pellach |
|---|---|

- Fel yn C3, mae CNC wedi darparu sylwadau cyn hyn ynglŷn â maint yr ardaloedd astudio sy'n cael eu cynnig. Cynyddwyd rhywfaint ar bellteroedd yr ardaloedd astudio yn dilyn y trafodaethau hyn felly rydym yn hapus â'r berthynas gyfredol rhwng uchder ac ardal astudio. Os gwneir unrhyw newidiadau i'r dosbarthiadau uchder yn y deipoleg byddai angen newid pellteroedd yr ardaloedd astudio fel sy'n briodol ar sail y paramedrau y cytunwyd arnynt i ailddiffinio'r ardaloedd astudio a chwilio.

| C7 | Rhan 2<br>A ydych yn cytuno â'r trothwyon cronnus a gynigir ar gyfer Seilwaith Arall (tudalen 2.3 Tabl 4)? | Nodwch â x |
|---|---|---|
| | Cytuno | |
| | Ddim yn Cytuno nac Anghytuno x | |
| | Anghytuno | |

| C7 | Sylwadau Pellach |
|---|---|

- Td.2.3 Tabl 4 – a ydy'r pellteroedd yn Nhabl 3 yn gymwys? E.e. byddai mwy na 15 tyrbin canolig (80m) o fewn 12km yn drothwy i EIA? Mae 15 yn ymddangos yn nifer reit sylweddol – gallai effeithiau arwyddocaol ddeillio o lai na hyn pe baent yn agos at ased sensitif?
- Mae Tabl 4 yn nodi trothwyon cronnus. Er bod hyn yn ddefnyddiol efallai fel canllaw, dylai bob amser gael ei seilio ar asesiad fesul achos unigol, yn dibynnu ar y topograffi, tirwedd, gosodiad ac ati.

| C8 | Rhan 3<br>A ydych yn cytuno â'r gofynion cyffredinol o ran y wybodaeth y mae rhaid ei darparu fel rhan o Asesiadau o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol (tudalen 3.1)? | Nodwch â x |
|---|---|---|
| | Cytuno x | |
| | Ddim yn Cytuno nac Anghytuno | |
| | Anghytuno | |

| C8 | Sylwadau Pellach |
|---|---|

| C9 | Rhan 3<br>A ydych yn cytuno â'r gofynion penodol arfaethedig o ran Asesu'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol (tudalen 3.3)? | Nodwch â x |
|---|---|---|
| | Cytuno | x |
| | Ddim yn Cytuno nac Anghytuno | |
| | Anghytuno | |

| C9 | Sylwadau Pellach |
|---|---|
| | |

| C10 | Rhan 3<br>A ydych yn cytuno â'r defnydd arfaethedig o LANDMAP fel rhan o Asesu'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol (tudalen 3.6 a Thabl 6)? | Nodwch â x |
|---|---|---|
| | Cytuno | x |
| | Ddim yn Cytuno nac Anghytuno | |
| | Anghytuno | |

| C10 | Sylwadau Pellach |
|---|---|

O dan ystyriaeth gychwynnol

- Dylid newydd y frawddeg gyntaf 'all aspect layers' i 'all aspect areas'
- Yr ail baragraff, ychwanegu 'regardless of their overall evaluation' ar y diwedd (fel ei bod yn glir bod tyrbin i gael ei ystyried yn llawn os yw wedi'i leoli mewn ardal wynebwedd ('aspect area') hyd yn oed os nad yw'n amlwg nac yn uchel)

O dan ystyriaeth fanwl

- Yn y frawddeg gyntaf dylid newid 'all aspect layers' i 'all aspect areas'

| C11 | Unrhyw sylwadau eraill<br><br>Os oes gennych unrhyw sylwadau, defnyddiwch y lle hwn i'w cofnodi. |
|---|---|

**Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n croesawu'r canllawiau hyn a'r ffordd yr aed ati i'w datblygu drwy gydweithio.**

**Rydym wedi rhoi adborth ar y ddogfen hon cyn hyn tra oedd yn dal ar ei ffurf ddrafft. Gwnaed hynny'n arbennig ar 5ed Mawrth, 6ed Mawrth, 4 Mehefin, 9 Mehefin ac 1 Gorffennaf 2014. Mae'n sylwadau wedi cael eu hystyried a'u cynnwys ar bob cam, a lle na chawsant eu cynnwys – rhoddwyd esboniad boddhaol. Dim ond sylwadau ychwanegol sy'n cael eu nodi yn y ddogfen hon felly.**

**Mae swyddog wedi ddefnyddio'r canllawiau drafft hyn yn ddiweddar fel prawf mewn achos byw a chanfu ei bod yn broses resymegol iawn a fydd yn help i benderfynu ynglŷn â'r gofynion EIA. O'r blaen byddid wedi gofyn am ZTV i ddangos hyd a lled gwelededd fel sail i'r penderfyniad, ond gan fod y siart llif yn ffigur 2 yn dilyn proses resymegol wedi'i seilio ar bellteroedd o ardaloedd tirwedd mwy sensitif, teimlai y byddai'n gwneud y broses sgrinio'n llawer symlach.**

**Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru hapus iawn i weithio gyda chi i drefnu digwyddiad i lansio'r Canllawiau a'u dwyn i sylw Awdurdodau Cynllunio Lleol, staff Cyfoeth Naturiol Cymru, ymgynghorwyr a datblygwyr.**

**Isod ceir sylwadau ychwanegol ar y ddogfen ddrafft:**

0.1 Awgrymir dileu 'Environmental assessment is a procedure that ensures that the environmental implications of proposals are taken into account before decisions are made. An Environmental Impact Assessment (EIA) assesses the possible impact that a proposed project may have on the environment and this information is submitted to the Local Planning Authority (LPA) or the Welsh Government in the form of an Environmental Statement (ES)'.
a rhoi hyn yn ei le:
'Environmental Impact Assessment (EIA) is a process by which information about the likely environmental effects of certain projects is collected, assessed and taken into account both by the applicant, as part of project design, and by the decision making body (Local Planning Authority or if called in, by Welsh Government) in deciding whether permission should be granted. Thus EIA has two roles – improving decision making and project planning.'

Cyflwyniad td.2 - CLVIA – a ddylid dweud yma y dylai datblygiadau eraill yn ogystal â thyrbinau gwynt gael eu hystyried (gweler y cyfeiriad ar td.4 Rhan 2)?

Td.1.2 a8 – byddai'n ddefnyddiol pe bai'r cynllun safle'n dangos nodweddion fel coed aeddfed/coetir/ gwrychoedd yn ogystal â chyfuchliniau/pwyntiau uchder.

Td1.3 b4 –Cynnwys morweddau sensitif?

Td.1.5 – y pellteroedd sgrinio e.e. 3km o'r Parc Cenedlaethol i gynlluniau canolig, gallai fod effeithiau arwyddocaol o fewn yr ardal astudio 5km?

## Datblygiadau Tyrbinau Gwynt – Astudiaeth Sensitifrwydd Tirwedd a Chapasiti – Adroddiad Terfynol

Tabl 2 – Mae Isel-Canolig-Uchel yn ymddangos yn ystod fras iawn o feini prawf; mae 5 categori yn y mapiau? Y termau sy'n cael eu defnyddio– 'sensitivity' a 'susceptibility' – ydyn nhw'n golygu'r un peth?

Tabl 3 VS4 – mae tirffurfiau garw, dramatig yn debygol o fod yn fwy 'susceptible' ond mae bryniau uchel yn cael eu dosbarthu fel canolig?

Tabl 3 Amgylchedd Adeiledig – a ddylai presenoldeb/natur ffyrdd a thraciau/patrwm trafnidiaeth gael eu hymgorffori ym meini prawf yr Amgylchedd Adeiledig neu fod yn feini prawf ar wahân?

Tabl 3 Nenlinellau a Gosodiadau – nid yw'r meini prawf yn dweud llawer am osodiadau?

Tabl 3 Meini prawf symud – nid dim ond â symudiadau y mae a wnelo llonyddwch? A ddylai hefyd gynnwys natur

anghysbell/dim datblygu a gweithgarwch dynol – ymdrinnir ar wahân â nodweddion canfyddiadol llonyddwch/ bod yn anghysbell?

Tabl 3 VS24 – nid yw diogel a gwyllt o reidrwydd yn cyfateb i sensitifrwydd uchel – mae ardaloedd wedi'u hanheddu'n helaeth yn aml yn teimlo'n ddiogel, a rhai gwyllt ddim yn teimlo felly?

Td.21 – dylai'r teitl ddweud 'Stage Three'

Td.22 – amcan 3 – oes unrhyw un wedi diffinio 'immediately adjacent' i SSAs?

Td.24 – Yr A465 yw ffordd Blaenau'r Cymoedd

VS9 Amgáu a rhyngwelededd e.e. uned 1 – mewn perthynas â golygfeydd i mewn ac allan – nid yw coed yn fodd o amgáu tyrbinau mawr wrth edrych arnynt o'r tu allan i'r ardal, dim ond oddi mewn iddi, felly er eu bod efallai wedi'u hamgáu o safbwynt dynol oddi mewn i'r ardal, nid ydynt wedi'u hamgáu o safbwynt golygfeydd.

**Sut i ymateb**

Dylech gyflwyno'ch sylwadau erbyn **19eg Rhagfyr 2014** yn y naill neu'r llall o'r ffyrdd isod:

| **E-bost** | **Post** |
|---|---|
| Llenwch y ffurflen ymgynghori a'i hanfon at :<br>planningpolicy@blaenau-gwent.gov.uk | Llenwch y ffurflen ymgynghori a'i hanfon at:<br>**Datblygiadau Tyrbinau Gwynt – Y Gofynion o ran Asesu'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol**<br>Polisi Ewropeaidd a Chynllunio<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent<br>Swyddfeydd y Sir<br>Y Stryd Fawr<br>Blaenau<br>NP13 3XD |